**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

444/51

# DAEARYDDIAETH UNED GG4

# PROSESAU DAEARYDDOL A'U RHEOLAETH

P.M. DYDD MAWRTH, 13 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn; **un** o is-uned o'ch dewis yn **Adran A** ac **un** o is-uned o'ch dewis yn **Adran B**.

**MAE GOFYN I CHI DDEFNYDDIO CYMAINT O ENGHREIFFTIAU AG SY'N BOSIBL I ATEGU EICH ATEBION. DYLECH GYNNWYS LLINFAPIAU A DIAGRAMAU LLE BYNNAG Y MAE HYNNY'N BERTHNASOL.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Atgoffir chi y bydd y marcio'n asesu eich gallu i drefnu a chyflwyno gwybodaeth, syniadau, disgrifiadau a dadleuon yn glir ac yn rhesymegol, gan ystyried eich defnydd o ramadeg, atalnodi a sillafu yn ogystal.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn,* **un** *o Adran A ac* **un** *o Adran B.*

## ADRAN A

*Mae pedwar cwestiwn yn yr adran hon. Atebwch* **un** *yn unig.*

### GG 4a Tirffurfiau: Proses a Rheolaeth

**1.** Archwiliwch bwysigrwydd digwyddiadau egni uchel yn natblygiad tirffurfiau yn yr amgylchedd geomorffig a ddewiswyd gennych. [20]

**2.** Trafodwch gostau a manteision strategaethau rheoli a ddefnyddir i leihau effaith **naill ai** prosesau geomorffolegol **neu** dirffurfiau ar weithgaredd dynol yn yr amgylchedd geomorffig a ddewiswyd gennych. [20]

### GG 4b Peryglon Hinsoddol: Achosion a Rheolaeth

**3.** Disgrifiwch ac eglurwch y newidiadau tymhorol yn y rhanbarth hinsoddol a ddewiswyd gennych. [20]

**4.** Aseswch effeithiolrwydd mesurau a ddefnyddiwyd i leihau effaith peryglon sy'n gysylltiedig â systemau gwasgedd uchel yn y rhanbarth hinsoddol a ddewiswyd gennych. [20]

## ADRAN B

*Mae pedwar cwestiwn yn yr adran hon. Atebwch* **un** *yn unig.*

### GG 4c Anghyfartaleddau mewn Datblygiad

**5.** Aseswch effeithiolrwydd yr amrywiaeth o ddangosyddion a ddefnyddir yn awr i fesur datblygiad. [20]

**6.** Enwch, a rhowch gyfrif am ddatblygiad anghyfartaleddau gofodol mewn **un** rhanbarth a astudiwyd gennych y tu allan i'r DU. [20]

### GG 4ch Daearyddiaeth Newidiol Gweithgareddau Economaidd

**7.** Aseswch effeithiau cymdeithasol globaleiddio gweithgaredd economaidd ar Wledydd MEDd a Gwledydd LlEDd. [20]

**8.** Gwerthuswch i ba raddau y bu datblygiad gweithgaredd economaidd o fantais i'r gymdeithas a'r economi mewn un rhanbarth a astudiwyd gennych y tu allan i'r DU. [20]